


Taith 8:

Taith ffordd fawr Llyn

Caernarfon - Clynnog Fawr - Carn Fadryn - Aberdaron **Cyfnod: UN DIWRNOD**

Teithiwch i lawr y rhan arfordirol drawiadol hon, ac amsugnwch rai o dirweddau mwyaf trawiadol a heb eu difetha Gogledd Cymru, gan ddarganfod cysylltiadau ysbrydol y tywysogion. Dyma Ffordd y Pererinion, oedd yn teithio o Ffynnon Wenfrewi yn Nhreffynnon i ynys sanctaidd Enlli. Fe welwch bentref swynol Clynnog Fawr, gyda'i eglwys hardd o'r 16eg ganrif, sydd wedi'i chysegru i Sant Beuno, yn ogystal ag adfeilion godidog Carn Fadryn - y castell (neu gaer) Cymreig a gafodd ei grybwyll gan Gerallt Gymro sy'n sefyll yng nghanol caer enfawr o'r Oes Haearn. Dewch â'ch taith i ben yn Aberdaron ac Eglwys Sant Hywyn hyfryd a oedd yn noddfa i Gruffudd ap Cynan, tywysog pwysig o dras hanner Gwyddelig a oedd yn byw rhwng oddeutu 1055 a 1137.

TEITHIO: Gan ddechrau yn yr arddangosfa yn Oriel Pendeitsh (gyferbyn â'r Castell), teithiwch yn y car i Glynnog Fawr (ar yr A499 a thaith car 20 munud o Gaernarfon). O'r fan hon, gyrrwch i Garn Fadryn a pharciwch wrth y capel. Mae'n daith gerdded feichus, 45 munud o hyd i fyny llwybr troed o'r capel i gopa'r mynydd. Ar ôl i chi goncro'r mynydd, os oes gennych yr egni, ewch i lawr i Aberdaron i ymweld ag Eglwys Sant Hywyn, a arferai fod yn noddfa i Gruffudd ap Cynan (1055-1137). Dylai'r llwybr hwn gymryd diwrnod i'w gwblhau.



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387. Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn.



Garnfadryn